***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 946 (Cy. 235)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Medi 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Medi 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *11 Rhagfyr 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 126A(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**).

Yn unol ag adran 126A(6) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Trysorlys, pan feddyliant fod hynny'n briodol.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2017.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Rhagfyr 2017.

### Dynodiadau

**2.** Mae corff sydd wedi ei restru yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gorff dynodedig at ddibenion adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â Gweinidogion Cymru(**2**).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

26 Medi 2017

(**1**) 2006 p. 32. Ychwanegwyd adran 126A gan adran 44(2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (p. 25).
(**2**) Yn rhinwedd adran 124(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Gweinidogion Cymru yn "relevant person" at ddibenion adran 126A o'r Ddeddf honno.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

Cyrff Dynodedig

DCFW Limited

Innovation Point Limited

Life Sciences Hub Wales Limited

Sector Development Wales Partnership Limited

WGC Holdco Limited

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre(**3**)

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru(**4**)

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru(**5**)

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r ail Orchymyn sy'n dynodi cyrff penodedig mewn perthynas â Gweinidogion Cymru at ddiben cynnwys mewn cynnig Cyllidebol yr adnoddau y disgwylir eu defnyddio gan y cyrff hynny.

Dynodwyd cyrff penodedig eraill yn flaenorol gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016 (O.S. 2016/1096 (Cy. 260)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

(**3**) Sefydlwyd gan O.S. 1993/2838, erthygl 2.
(**4**) Sefydlwyd gan O.S. 1998/678, erthygl 2.
(**5**) Sefydlwyd gan O.S. 2009/2058 (Cy. 177), erthygl 2.